Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Alexandra**

**Cartref Nyrsio Alexandra**
**Ffordd Sandilands**
**Tywyn**
**LL36 9AS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Alexandra

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | ALEXANDRA TYWYN LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 25 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ers cofrestru ag AGC ym mis Awst 2022. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng nghartref Alexandra. Mae'r staff gofal yn wybodus, yn barchus, ac yn ofalgar ac maent yn diwallu anghenion gofal y bobl mewn modd urddasol ac amserol. Mae cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn cael eu datblygu. Gall ymwelwyr ddod i weld y bobl a gall y bobl ddewis sut yr hoffent dreulio eu diwrnod.

Mae proses recriwtio ar waith gan gynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Caiff y staff hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn fedrus. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ystyried datblygiad y staff mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarnu. Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo rhwng y staff i rannu gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl.

Mae'r adeilad ar ei dir ei hun â golygfeydd panoramig. Mae'r bobl yn hapus â'r newidiadau diweddar i'r amgylchedd a'r dodrefn. Gwneir ymdrech i sicrhau bod y cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal heintiau a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros y rhan fwyaf o agweddau ar eu bywyd o ddydd i ddydd. Mae copi o'r Datganiad o Ddiben ar gael yn y cartref sy'n rhoi gwybod i'r bobl beth i'w ddisgwyl. Caiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau a all effeithio arnynt. Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau â'r bobl drwy dreulio amser effeithiol gyda nhw'n unigol, a thrwy ofyn i'r bobl am eu barn a'u dewisiadau. Ystyrir p'un a ellir cynnwys perthnasau hefyd fel rhan o’r broses asesu.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo iechyd meddwl ac iechyd corfforol y bobl. Gwneir atgyfeiriadau at amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn cefnogi'r bobl mewn modd amserol. Mae hyfforddiant gan weithwyr iechyd proffesiynol penodol yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am unrhyw bryderon am lesiant a diogelwch y bobl.

Mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r darparwr newydd wedi buddsoddi ac wedi ailaddurno'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol ac mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Mae'r gwelliannau a welwyd a'r trafodaethau a gafwyd â'r bobl yn dangos bod canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt. Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac mae polisi drws agored ar waith. Mae dulliau cyfathrebu da ar waith â'r bobl, y staff a pherthnasau. Mae'r rheolwr yn gefnogol, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar gael am y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cynlluniau gofal personol a'r asesiadau risg yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn dangos gwybodaeth a gasglwyd gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae nodiadau a siartiau dyddiol yn dangos bod y bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt pan fo'i angen. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael cymorth da gan staff cyfeillgar, parchus a gofalgar. Mae gweithgareddau'n cael eu datblygu gyda chydgysylltydd gweithgareddau dynodedig, sy'n treulio amser penodol gyda'r bobl i ddatblygu rhaglenni gweithgareddau unigol. Yn ogystal, gall y bobl ddewis cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp i ddathlu digwyddiadau tymhorol fel diwrnod crempog, Dydd San Ffolant a Dydd Gŵyl Dewi. Clywsom y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg, gan ddibynnu ar ddymuniadau'r unigolyn. Dywedodd y bobl sy'n derbyn cymorth wrthym *"I'm very lucky to be here," "Brilliant care home, I haven't got a negative word to say about them"* a *"11 out of 10 staff are very kind."*

Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl diolch i'r gofal a ddarperir, atgyfeiriadau amserol at weithwyr iechyd proffesiynol, a threfniadau effeithiol ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt yn ddiogel. Caiff cymhwysedd y staff ei gadarnhau cyn y gallant roi meddyginiaeth. Mae anghenion deietegol y bobl yn cael eu hystyried, ac mae prydau iach a maethlon yn sicrhau bod y bobl yn aros yn iach. Dywedodd un person wrthym fod y staff yn parchu ei ddewis o ddeiet. Gwelsom fod lluniaeth poeth ac oer a dewis o gacennau cartref ar gael.

Caiff diogelwch y bobl ei gynnal yn dda. Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o ba mor bwysig yw gwneud atgyfeiriadau perthnasol at yr awdurdod lleol pe bai unrhyw bryderon ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn gynnes. Mae rhannau mewnol ac allanol o'r cartref yn cael eu hailwampio a'u hadnewyddu'n helaeth. Mae dodrefn newydd yn yr ardaloedd cymunedol ac yn yr ystafelloedd gwely unigol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys wrth ddewis y décor a'r dodrefn. Mae'r ardaloedd wedi'u haddurno i safon dda ac mae eitemau cofiadwy personol yn yr ystafelloedd unigol. Mae pob rhan yn hygyrch i'r bobl ag anawsterau symudedd, ac mae lifft teithwyr y gellir ei ddefnyddio i gyrraedd yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi ar y llawr cyntaf.

Ar y cyfan, mae'r gwaith cynnal a chadw dyddiol o safon dda. Mae'r cofnodion o brofion rheolaidd yn dangos bod cyfleustodau, cyfarpar a chyfarpar diogelwch tân yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n benodol i'w hanghenion cymorth unigol.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith o hyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau. Gofynnir i ymwelwyr â'r cartref ddilyn y canllawiau cyfredol mewn perthynas â rheoli heintiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ac mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheolaidd ac yn trafod preswylwyr, staffio, yr amgylchedd, cwynion, iechyd a diogelwch, a chydymffurfiaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n cyflogi staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion personol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cofnodion yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae proses dethol a fetio gan y darparwyr, gan gynnwys proses ar gyfer cael geirdaon. Mae'r staff yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl ac i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cynigir hyfforddiant mewn pynciau gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf, symud a chodi a chario a diogelu. Dywedodd y staff eu bod yn mynychu hyfforddiant a'u bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu.

Mae'r cofnodion yn dangos bod unigolion yn cael eu goruchwylio. Mae'r rheolwyr wrthi'n ailddatblygu cofnodion goruchwylio ffurfiol ar gyfer y staff er mwyn sicrhau y caiff yr arfarniadau blynyddol eu cynnwys fel rhan o'r amserlenni. Mae ap negeseuon ffôn symudol y cartref ar gael i'r staff sy'n eu hysbysu am unrhyw faterion iechyd a diogelwch, hyfforddiant a newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir. Caiff cyfarfodydd staff ffurfiol eu hailgyflwyno ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r rotas staff yn dangos bod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben, sy'n disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff ei ddarparu. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/03/2023